

## **Polisi iaith Cyngor Tref Porthmadog**

### **Nod Strategol Cyngor Tref Porthmadog**

Mae gwarchod a chynnyddu defnydd yr iaith Gymraeg yn nod strategol gan y Cyngor .

### **IAITH WEITHREDOL**

Cymraeg ydi iaith weithredol Cyngor Tref Porthmadog. Gwarchodir rhag newid iaith weithredol Cyngor Tref Porthmadog o fod yn uniaith Gymraeg, gan nodi fod y Cyngor yn hyrwyddo cymuned ddwyieithog lle gellir cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Petai amgylchiadau'n codi lle byddai unigolyn sydd ddim yn medru siarad Cymraeg a Saesneg yn mynychu pwyllgor neu'n aelod o'r Cyngor, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw fydd trefnu'r modd y bydd yn cymryd rhan yng ngwaith y Cyngor. Os golyga hyn unrhyw gost ariannol yr unigolyn fydd yn gyfrifol am ei dalu.

### **COFNODION.**

Darperir cofnodion y Cyngor yn yr iaith weithredol. Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i archwilio'r cofnodion drwy drefniant efo'r cler. Mae'r Cyngor yn caniatáu i'r cofnodion gael eu cyfieithu i unrhyw iaith, ond ni fydd y cyngor yn gyfrifol am unrhyw wallau neu gamddehongliadau a all ymddangos mewn cyfieithiadau o'r cofnod gwreiddiol.

### **ADOLYGU.**

Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi pan fydd holl Gyngorau Sir a Chymuned gweddill Cymru yn gweithredu trefn ddwyieithog gytbwys.

**Arwyddwyd: Aled Griffith**

**Cadeirydd 2023 - 2024**

**Dyddiad : Mai 9 2023**

